# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 2

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 6

CAFFAEL, GWARCHEIDIAETH A MYNEDIAD Y CYHOEDD

PROSPECTIVE

*Pwerau perchnogion cyfyngedig*

### 52 Pwerau perchnogion cyfyngedig at ddibenion adrannau 45, 50 a 51

(1) Caiff person sefydlu gwarcheidiaeth heneb neu dir o dan adran 45 neu ymuno i gyflawni gweithred warcheidiaeth o dan yr adran honno, er mai perchennog cyfyngedig ar yr heneb neu'r tir ydyw.

(2) Caiff person roi hawddfraint neu hawl arall dros dir y mae Gweinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod lleol wedi eu hawdurdodi neu ei awdurdodi i'w chaffael o dan adran 50, er mai perchennog cyfyngedig ar y tir ydyw.

(3) Caiff person wneud cytundeb rheoli o dan adran 51 mewn cysylltiad â heneb neu dir, er mai perchennog cyfyngedig ar yr heneb neu'r tir ydyw.

(4) At ddibenion yr adran hon—

(a) mae corff corfforedig neu gorfforaeth undyn yn berchennog cyfyngedig ar unrhyw dir y mae ganddo neu ganddi fuddiant ynddo, a

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Pwerau perchnogion cyfyngedig. (See end of Document for details)*

(b) mae unrhyw bersonau eraill yn berchnogion cyfyngedig ar dir y mae ganddynt fuddiant ynddo os ydynt yn dal y buddiant hwnnw yn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a grybwyllir yn is-adran (5).

(5) Y ffyrdd o ddal buddiant mewn tir y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b) yw—

(a) fel tenant am oes neu berchennog statudol (o fewn yr ystyr a roddir i "tenant for life" a "statutory owner" gan Ddeddf Tir Setledig 1925 (p. 18));

(b) fel ymddiriedolwyr tir (o fewn yr ystyr a roddir i "trustees of land" gan Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 (p. 47));

(c) fel ymddiriedolwyr ar gyfer elusennau neu gomisiynwyr neu ymddiriedolwyr at ddibenion eglwysig, dibenion colegol neu ddibenion cyhoeddus eraill.

(6) Pan fo person sy'n berchennog cyfyngedig ar unrhyw dir yn rhinwedd dal buddiant yn y tir yn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a grybwyllir yn is-adran (5) yn cyflawni gweithred warcheidiaeth mewn perthynas â'r tir, mae'r weithred warcheidiaeth yn rhwymo pob perchennog olynol ar unrhyw ystad neu unrhyw fuddiant yn y tir.

(7) Ond pan fo'r tir, ar ddyddiad y weithred, yn ddarostyngedig i unrhyw lyffethair nad oes modd i'r perchennog cyfyngedig ei gorgyrraedd wrth arfer unrhyw bwerau gwerthu neu reoli a roddir i'r perchennog cyfyngedig gan y gyfraith neu o dan unrhyw setliad neu unrhyw offeryn arall, nid yw'r weithred yn rhwymo'r llyffetheiriwr.

(8) Pan fo cytundeb rheoli o dan adran 51 y mae perchennog cyfyngedig yn barti iddo yn darparu'n benodol fod y cytundeb yn ei gyfanrwydd neu unrhyw gyfyngiad, unrhyw waharddiad neu unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o dan y cytundeb yn rhwymo olynwyr y perchennog cyfyngedig, mae is-adrannau (9) a (10) yn gymwys i'r cytundeb neu (yn ôl y digwydd) i'r cyfyngiad, y gwaharddiad neu'r rhwymedigaeth o dan sylw.

(9) Pan fo person yn berchennog cyfyngedig yn rhinwedd dal buddiant yn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a grybwyllir yn is-adran (5), mae'r cytundeb neu'r cyfyngiad, y gwaharddiad neu'r rhwymedigaeth yn rhwymo pob perchennog olynol ar unrhyw ystad neu unrhyw fuddiant yn y tir.

(10) Ond pan fo'r tir, ar ddyddiad y cytundeb, yn ddarostyngedig i unrhyw lyffethair nad oes modd i'r perchennog cyfyngedig ei gorgyrraedd wrth arfer pwerau gwerthu neu reoli a roddir i'r perchennog cyfyngedig gan y gyfraith neu o dan unrhyw setliad neu unrhyw offeryn arall, nid yw'r cytundeb neu'r cyfyngiad, y gwaharddiad neu'r rhwymedigaeth yn rhwymo'r llyffetheiriwr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Pwerau perchnogion cyfyngedig.